

Ein polisïau ar gyfer Cymru

*“Ni ddylai neb yng Nghymru
gael eu rhoi mewn perygl
oherwydd diffygion
trydan yn eu cartref”*





Electrical Safety First - Pwy ydyn ni

Mae Electrical Safety First yn elusen ymgyrchu i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig sy'n canolbwyntio ar atal marwolaethau, anafiadau a difrod a achosir gan drydan.

- Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, tenantiaid, landlordiaid a pherchenogion cartrefi i ostwng nifer y marwolaethau a damweiniau yn y cartref sy'n gysylltiedig â thrydan.
- Rydym yn ymgyrchu ar ran defnyddwyr i wella diogelwch a sicrhau bod negeseuon am ddiogelwch trydan yn briodol, i'r funud, ac yn cael eu cyfleu'n effeithiol.
- Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol i helpu pobl i'w diogelu eu hunain rhag gosodiadau trydan ac offer trydan is-safonol, diffygiol, wedi eu difrodi, ac nad ydynt yn cael eu cynnal yn dda.
- Cawn ein cydnabod gan y llywodraeth a diwydiant fel y prif awdurdod technegol ac ymgyrchu ar ddiogelwch trydan.
- Mae Electrical Safety First yn credu na ddylai neb, heb ystyried eu hoed, eu hincwm neu ble maen nhw'n byw yng Nghymru, gael eu rhoi mewn perygl oherwydd diffygion trydan yn eu cartref. At y diben hwn, rydym wedi bod yn ymgyrchu i wella diogelwch trydan mewn nifer o feysydd allweddol.

1. Atal Tanau Trydan mewn Cartrefi yng Nghymru


Mae trydan yn gallu lladd, ac mae wir yn lladd.

Trydan sy'n achosi mwy na hanner y tanau yn y cartref yng Nghymru bob blwyddyn, a chafodd 42% o'r tanau damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru a achoswyd gan gyflenwad tanwydd diffygiol eu cynnau gan drydan¹. Mae nifer y tanau yng Nghymru yn gostwng. Fodd bynnag, tân o ffynonellau trydan yw prif achos y tanau damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru yn gyson ers 2001/2.

Rydym eisiau gweld:

1. Ymrwymiad i leihau nifer y tanau trydan damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru o 10% dros y pum mlynedd nesaf.
2. Gwella'r broses o adrodd am danau trydan damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru - er mwyn llywio strategaethau diogelwch yn well ac amddiffyn y cyhoedd yng Nghymru.
3. Strategaeth i fynd i'r afael â dosbarthu a gwerthu nwyddau trydan ffug yng Nghymru.

Mae trydan yn achosi mwy na hanner y tanau yn y cartref yng Nghymru



2. Diogelu Tenantiaid yng Nghymru

Mae Electrical Safety First wedi bod yn ymgyrchu i sicrhau bod pobl sydd yn y sector rhentu preifat yng Nghymru yn cael gwiriad diogelwch trydan bob 5 mlynedd. Yng Nghymru, mae traean o'r boblogaeth yn rhentu eu cartref².

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno rheoliadau trwy'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru), ond rydym eisiau sicrhau bod y rheoliadau hyn yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl ar ôl yr Etholiadau yng Nghymru.

Rydym eisiau gweld:

1. Cyflwyno rheoliadau ar gyfer cynnal gwiriadau diogelwch trydan bob 5 mlynedd yn y sector rhentu preifat yng Nghymru.
2. Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn y gwiriadau diogelwch trydan i'r sector rhentu cymdeithasol.

Rydym eisiau i Lywodraeth Cymru ymestyn y gwiriadau diogelwch trydan i'r sector rhentu cymdeithasol

Rydym eisiau gweld gwiriadau diogelwch trydan bob 5 mlynedd yn y sector rhentu preifat yng Nghymru




3. Diogelwch Trydan i Bobl Hŷn

Yng nghanol 2014, roedd canran y boblogaeth yng Nghymru oedd dros 65 oed yn 19.9 y cant, mae hwn yn duedd ar i fyny¹. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru yn creu heriau newydd, yn enwedig o ran fforddiadwyedd ynni a materion iechyd fel dementia neu syndromau dirywiol tebyg sy'n effeithio ar allu pobl hŷn i aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.

Yn aml, gall pobl hŷn fod mewn perygl oherwydd eu bod yn byw mewn eiddo sy'n perthyn iddyn nhw ac sydd heb gael gwiriad diogelwch trydan erioed, neu ble maent yn defnyddio offer trydan hynach. Yn aml gall pobl hŷn fod yn dibynnu ar ffynonellau gwresogi trydan yn y cartref, yn enwedig yn ystod y gaeaf. Mae bron 40% o'r marwolaethau oherwydd tanau mewn gwresogyddion cludadwy yn digwydd i bobl 80 oed a throsodd².

Mae bron 40% o'r marwolaethau oherwydd tanau mewn gwresogyddion cludadwy yn digwydd i bobl 80 oed a throsodd.



Rydym eisiau gweld:

1. Strategaeth gan y llywodraeth i ostwng nifer y tanau trydan ymhlith pobl hŷn yng Nghymru.
2. Ymweliadau gofal i bobl hŷn, sy'n cynnwys gwiriadau gweledol sylfaenol ar osodiadau ac offer trydan.
3. Gwiriadau diogelwch trydan rheolaidd ym mhob cartref gofal.



¹ <http://gov.wales/docs/statistics/2016/160727-fire-statistics-2015-16-en.pdf>

² <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s39537/22%20April%202015.html?CT=2>

³ <http://gov.wales/statistics-and-research/mid-year-estimates-population/?lang=en>

⁴ <http://www.electricalsafetyfirst.org.uk/mediafile/100304187/A-Shock-to-the-System.pdf>

Electrical Safety First



Mae Electrical Safety First yn elusen yn y DU sy'n canolbwyntio ar ostwng marwolaethau ac anafiadau a achosir gan ddamweiniau trydan. Ein nod yw sicrhau bod pawb yn y Deyrnas Unedig yn gallu defnyddio trydan mewn ffordd ddiogel.

© Electrical Safety First, Mawrth 2016

Elusen Gofrestredig (Cymru a Lloegr) Rhif 257376 (Yr Alban) Rhif SC039990

45 Great Guildford Street
Llundain
SE1 0ES

Llinell Gymorth 020 3463 5100
E: enquiries@electricalsafetyfirst.org.uk

electricalsafetyfirst.org.uk